



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gweithgareddau adfer ar fawndiroedd yng Nghymru: dosbarthiad a chodau gweithgareddau

Nodyn cyfarwyddyd-

Cyfeirnod: PEAT001

Perchennog y ddogfen: Alice Whittle

Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r mathau o weithgareddau adfer mawndiroedd a'u gofynion adrodd. Ceir 'Cod gweithgaredd' a 'Math o ddata GIS' ar gyfer pob math o weithgaredd. Defnyddir y rhain mewn mapiau tracio gweithgareddau safonol gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF) i goladu ac adrodd ar weithgareddau ledled Cymru.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Unrhyw un sy'n gwneud gwaith adfer ar fawndiroedd yng Nghymru

Cyswllt ar gyfer cwestiynau ac adborth

Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

npap@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Hanes fersiynau

Fersiwn y ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o newidiadau
1.0	[05-2024]	Cyhoeddwyd y ddogfen

Dyddiad adolygu: [11-2024]

I roi gwybod am faterion neu broblemau ynglŷn â'r canllaw hwn, cysylltwch â: guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwarchodir pob hawlfraint.
Gyda chaniatâd rhagflaen gan Cyfoeth Naturiol Cymru mae modd ailgynhyrchu'r ddogfen. I wneud hynny cysylltwch â: npap@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cynnwys

Dosbarthiad a rhestr wirio wedi'i chodio o fathau o weithgareddau adfer.....	3
Cyflwyniad.....	5
Adfer hydrolegol.....	6
Rheoli erydiad.....	30
Rheoli coed.....	37
Rheoli llystyfiant.....	42
Pori.....	52
Rheoli maethynnau.....	60
Cyfeiriadau.....	65

Dosbarthiad a rhestr termau wedi'i chodio o fathau o weithgareddau adfer

Peter Jones, Esther Clews, Rob Bacon, Jack Simpson a Rhoswen Leonard
Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (Gweithredu ar Fawndiroedd Cymru)



Acronymau a ddefnyddir yn y ddogfen hon:

GIS – Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (Geographic Information Systems)

RhWGF / NPAP – Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (National Peatland Action Programme)

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

RSPB – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (Royal Society for the Protection of Birds)

REG - Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Dosbarthiad a rhestr wirio wedi'i chodio o'r mathau o weithgareddau adfer

Mae'r ddogfen weithredol hon yn cynnwys dosbarthiad a rhestr wirio wedi'i chodio o'r mathau o weithgareddau adfer a gyflawnir ar fawndiroedd a sut y gellir eu cymhwyso wrth dracio gweithgareddau adfer.

Cyflwyniad

Mae gwaith adfer mawndiroedd wedi bod yn digwydd ar sail prosiectau unigol ers blynnyddoedd lawer yng Nghymru. Y canlyniad yw bod data gweithgareddau adfer ledled Cymru yn cael ei gadw gan sawl sefydliad ac mewn gwahanol feddalwedd a fformatau data gyda lefelau gwahanol o wybodaeth yn cael eu cofnodi. Mae hyn yn golygu bod adrodd ar gynnydd Cymru tuag at dargedau cenedlaethol fel sero net yn heriol iawn.

Mae'r [Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd](#) wedi datblygu un strwythur data a system adrodd. Bydd hyn yn gwella cysondeb a thryloywder o ran cofnodi ac adrodd ar ddata ledled Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio dros 100 o dechnegau gwahanol ar gyfer gweithgareddau adfer. Medrwyd ei defnyddio fel dogfen gyfeirio ar gyfer cofnodi gweithgareddau adfer mawndiroedd yn unol â phrotocolau adrodd penodol. Disgrifir y protocolau yn gryno ym mhob adran. Maent ar gael yn fanwl yn 'Dulliau Safonol ar gyfer Tracio Gweithgareddau Adfer Mawndiroedd (2023)'.

Mae'r technegau gweithgareddau adfer a nodir yn y canllawiau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi bod yn llwyddiannus dros amser, yn ogystal â'r rhai nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus. Mae hwn yn gofnod o wahanol fathau o ymyriadau adfer. **Nid yw'n** argymhelliad neu'n awgrym o dechnegau i'w defnyddio.

Rhoddir 'Cod gweithgaredd' a 'Math o ddata GIS' i bob techneg adfer neu fath o weithgaredd. Defnyddir y rhain mewn mapiau tracio gweithgareddau safonol gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd i goladu ac adrodd ar weithgareddau ledled Cymru (Dulliau Safonol ar gyfer Tracio Gweithgareddau Adfer Mawndiroedd, 2023).

Mathau o weithgareddau

Dosberthir pob math o weithgaredd yn un o chwech math eang o weithgaredd:

- Adfer hydrolegol
- Rheoli erydiad
- Rheoli coed
- Rheoli llystyfiant
- Pori

- Rheoli maethynnau

Yn aml, defnyddir cyfres o weithgareddau adfer ar safle, er enghraifft:

- pori yn dilyn rheoli llystyfiant
- adfer hydrolegol yn dilyn rheoli coed.

Yn yr achosion hyn, mae pob un o'r gweithgareddau sydd wedi digwydd ar y safle wedi'u mapio gan gyfeirio at y codau gweithgareddau a ddarperir yma.

Codau gweithgareddau

Mae gan bob math o weithgaredd god unigryw i'w ddefnyddio ar gyfer adrodd.

Mathau o ddata GIS

Mae gan bob gweithgaredd 'Math o ddata GIS' i fapio pob un o'r gweithgareddau gwahanol. Pwynt, aml-linell, neu fector polygon (ardal) yw hwn.

Mewn rhai achosion, gellir darparu math dewisol yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer tracio.

Adrodd ar hectarau

Mae'r hectarau o fawndir a dargedwyd gan waith adfer yn cael eu hadrodd ar gyfer pob un o'r mathau bras hyn. Mae'r dull a ddefnyddir gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd i gyfrifo'r ardal hon ar gyfer 'adrodd ar hectarau' hefyd wedi'i nodi yma ar gyfer pob gweithgaredd sy'n cael ei dracio naill ai fel llinell neu bwynt.

Yn nodweddiadol, defnyddir clustogfa o amgylch y nodweddion hyn i ddarparu'r ardal o fawndir a dargedir gan bob mesur. Mae lled y glustogfa wedi'i safoni ar gyfer pob math o weithgaredd yn unol â'r consensws a'r wybodaeth orau sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Lle bynnag y bo modd, gellir cymharu ardaloedd â'r rhai a gymhwysir yma: [New version of the Peatland Code launched | IUCN UK Peatland Programme \(iucn-uk-peatlandprogramme.org\)](https://www.iucn-uk-peatlandprogramme.org/).

Ar gyfer rhai mathau o weithgareddau, megis y rhai a gynlluniwyd ar gyfer rheoli maethynnau, bydd angen i swyddogion gwaith adfer arweiniol gynnal asesiad ar y safle er mwyn asesu'r ardal darged. Nodir hyn yn y testun lle bo'n berthnasol.

Adfer hydrolegol

Nod adfer hydrolegol yw gwrthdroi effaith gweithgareddau niweidiol sydd wedi arwain at newidiadau andwyol i gyfundrefnau hydrolegol. Gall hyn gynnwys codi lefelau dŵr i hybu planhigion sy'n ffurfio mawn, fel mwsoglau migwyn, neu adfer llwybrau a phrosesau cyflenwi dŵr allweddol.

Fel arfer, gellir mapio nodweddion adfer hydrolegol ar wahân fel llinellau neu bwyntiau. Eithriadau, y gellir eu darlunio orau fel ardaloedd polygon, yw adfer dylanwad dŵr daear i ardal benodol o fawndir, a defnyddir technegau llyfnu tir, fel arfer i adennill hydroleg mawndir a ddraeniwyd ac a goedwigwyd o'r blaen.

Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith adfer hydrolegol:

[Bwnd cyfuchlinol gyda bwnd arwyneb](#)

[Ffos llawn dop Bwnd cyfuchlinol heb fwnd arwyneb](#)

[Byndiau cennau pysgod](#)

[Bwnd gwasgedd](#)

[Cored neu lifddor](#)

[Ardal cored neu lifddor](#)

[Tarddell neu dryddiferiad](#)

[Dŵr ffo i fyny'r llethr](#)

[Dyfrffordd yn mynd dros ei glannau](#)

[Draen cae wedi'i dorri](#)

[Ardal draeniau cae sydd wedi eu torri](#)

[Craciau mawn wedi'u selio](#)

[Argae llen](#)

[Mesurau hydrolegol eraill](#)

[Rheolaeth hydrolegol hanesyddol](#)

[Adfer hydrolegol – argaeau](#)

[Adfer hydrolegol – llyfnu tir](#)

Bwnd cyfuchlinol gyda bwnd arwyneb

Byndiau mawn isel (y cyfeirir atynt yn aml fel byndiau cyfuchlinol lle mae'r rhain yn dilyn cyfuchliniau arwyneb) – mae'r nodweddion hyn yn gorwedd uwchben ffos yn llawn mawn i leihau tryddiferu. Defnyddiwyd y nodweddion hyn i godi lefelau dŵr a lleihau tryddiferiad dros ardaloedd o fawn sy'n lletach na nodweddion draenio arwahanol. Cofnodwch bob hyd o fwnd fel llinellau. Gweler hefyd ffosydd llawn dop heb fyndiau cyfuchlinol isod.

Cod gweithgaredd: **hydrocbun**

Math o ddata GIS: aml-linell



Bwnd cyfuchlinol isel yng Nghors Caron (y gors orllewinol).

Bwnd cyfuchlinol heb fwnd arwyneb

Nodweddion a gynlluniwyd i leihau llifoedd dan yr wyneb mewn mawn wedi cracio neu fewn mandyllog trwy bacio mawn sydd wedi'i ddeilbriddo'n dda i ffos a gloddiwyd. Cofnodwch bob hyd o ffos wedi'i phacio fel llinellau.

Cod gweithgaredd: **hydrodptr**


Math o ddata GIS: aml-linell gyda aml-linellau opsiynol

Byndiau cennau pysgod

Byndiau mawn isel wedi'u trefnu mewn brithwaith o sbardunau rhyng-gysylltiol, gan greu patrwm 'cennau pysgod' o gelloedd ar draws y dirwedd. Defnyddir nodweddion i godi lefelau dŵr dros ardaloedd o fawn sy'n lletach na nodweddion draenio arwahanol. Cofnodwch yr ardal y mae'r byndiau cennau pysgod yn cael eu gosod drosti fel polygon gydag aml-linellau dewisol ar gyfer y byndiau.

Cod gweithgaredd: **fishbund**

Math o ddata GIS: polygon gydag aml-linellau dewisol



Byndiau celloedd

Byndiau mawn isel (y cyfeirir atynt yn aml fel byndiau cyfuchlinol lle mae'r rhain yn dilyn cyfuchliniau arwyneb) wedi'u trefnu fel cyfres o sbardunau llinellol sy'n croesi'n rheolaidd, gan greu patrwm o gelloedd tebyg i grid. Defnyddir nodweddion i godi lefelau dŵr dros ardaloedd o fawn sy'n lletach na nodweddion draenio arwahanol. Cofnodwch yr arwynebedd y mae'r byndiau celloedd yn cael eu gosod drosti fel polygon gydag aml-linellau dewisol ar gyfer y byndiau.

Cod gweithgaredd: **cellbund**

Math o ddata GIS: polygon gydag aml-linellau dewisol

Bwnd gwasgedd

Byndiau gwasgedd (cloddiau mawn wedi'u hadeiladu i uchder gwreiddiol o 0.5 metr neu fwy uwchben yr wyneb). Swyddogaeth byndiau yw codi lefelau dŵr ac fel arfer cânt eu gosod wrth ymyl ffosydd ymylol. Anaml y caiff ei defnyddio fel techneg fodern. Cofnodwch bob hyd o fwnd fel llinellau.

Cod gweithgaredd: **hydrobun**

Math o ddata GIS: aml-linell

Cored neu lifddor

Adeileddau wedi'u gosod i godi lefelau dŵr wrth ganiatáu gorlif. Mae'n bosibl y gellir addasu lefel y gorlif mewn coredau a lifddorau a chânt eu hadeiladu o amrywiaeth o ddeunyddiau. Nodwch y newidiadau yn lefel y dŵr a gyflawnwyd ar y pwynt hwn yn y sylwadau. Cofnodwch leoliadau pwynt y gored/lifddor a osodwyd.

Cod gweithgaredd: **hydrowrsI**

Math o ddata GIS: Pwynt



Cored addasadwy wedi'i gosod ynghyd â phont i dda byw a phont i gerddwyr ar gyfer mynediad i alluogi addasu neu fesur. Gellir ychwanegu neu dynnu byrddau gollwng i gyrraedd lefelau dŵr targed. SoDdGA Cors y Farl, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.



Llifddor pren syml wedi'i adeiladu yn y fan a'r lle i gynyddu lefelau dŵr mewn ffos sydd wedi'i dyfnhau'n ormodol. SoDdGA Cors Hirdre (Penllyn). Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.



Cymeriant pibell addasadwy mewn pwll gydag ymylon sy'n ystyriol o dda byw. Gall addasu tro'r bibell godi neu ostwng lefelau tua 0.7 metr. Mae'r bibell hon yn galluogi

bwrdd draenio rhydd o dir trydydd parti i'r dde wrth ganiatáu ailwlychu'r ffen i'r chwith.
Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.



Llifddor addasadwy a ddefnyddir i reoli arllwysiad dŵr i wlyptir adeiledig yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Erddreiniog. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Ardal cored neu lifddor

Ardal dylanwad y gored/lifddor. Yn dynodi ardal dylanwad y gored neu'r llifddor ar hydroleg y mawndir. Rhwng fanylion y math o adeiladwaith a'i faint, ac ystod y newid yn lefel y dŵr, yn y sylwadau. Nodwch yr ardal berthnasol mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **hydrowsar**

Math o ddata GIS: polygon

Tarddell neu dryddiferiad

Cynyddu arwynebedd y mawndir y mae tarddellau neu dryddiferiadau yn dylanwadu arno. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau i gynyddu arwynebedd y mawndir y mae tarddellau'n dylanwadu arno – fel arfer, lle mae hyn wedi'i leihau'n artiffisial gan ddraenio. Mae'r technegau'n cynnwys ailbroffilio arwynebau, mewnlenni ffosydd, a defnyddio pibellau osgoi. Cofnodwch ardaloedd o fawndir lle mae dylanwad tarddellau wedi'i adfer fel polygonau.

Cod gweithgaredd: **hydroseep**

Math o ddata GIS: polygon (gyda phwyntiau dewisol)



Dŵr ffo i fyny'r llethr

Cynyddu arwynebedd y mawndir sy'n cael ei ddylanwadu gan ddŵr ffo i fyny'r llethr. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau i gynyddu arwynebedd y mawndir sy'n cael ei ddylanwadu gan ddŵr ffo i fyny'r llethr – fel arfer, lle mae hyn wedi'i leihau'n artiffisial gan ddraenio. Mae'r technegau'n cynnwys ailbroffilio arwynebau, mewnlenni ffosydd, a defnyddio pibellau osgoi. Cofnodwch ardaloedd o fawndir lle mae dylanwad dŵr ffo i fyny'r llethr wedi'i adfer fel polygonau.

Cod gweithgaredd: **hydroroff**

Math o ddata GIS: polygon (gyda phwyntiau dewisol)

Dyfrffordd yn mynd dros ei glannau

Cynyddu arwynebedd y mawndir sy'n cael ei ddylanwadu gan nentydd/afonydd yn mynd dros eu glannau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau i gynyddu arwynebedd y mawndir y mae nentydd/afonydd yn mynd dros eu glannau yn dylanwadu arno – fel arfer, lle mae hyn wedi'i leihau'n artiffisial gan ddraenio. Mae'r technegau'n cynnwys ailbroffilio arwynebau, tynnu byndiau/llifgloddiau, a mesurau yn y sianel. Cofnodwch ardaloedd o fawndir lle mae dylanwad nentydd/afonydd yn mynd dros eu glannau wedi'i gyflawni fel polygonau.

Cod gweithgaredd: **hydroovba**

Math o ddata GIS: polygon (gyda phwyntiau dewisol)

Draen cae wedi'i dorri

Torri draeniau caeau. Mae hyn yn cynnwys mesurau i atal gweithrediad draeniau caeau wedi'u claddu. Cofnodwch fel llinellau o ddraeniau wedi'u torri'n ddarnau neu wedi'u blocio gyda phwyntiau dewisol ar gyfer (e.e.) argaeau clai.

Cod gweithgaredd: **hydrofdrn**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Ardal draeniau cae sydd wedi eu torri

Ardal dylanwad draeniau caeau ar hydroleg y mawndir. Mae'n dynodi'r ardal o fawndir y dylanwadir arni gan dorri draeniau caeau. Rhwng fanylion y math o ddraen a'r dull a ddefnyddiwyd i'w dorri, yn ogystal â graddau ac ystod y newid yn lefel y dŵr, yn y sylwadau. Nodwch yr ardal berthnasol mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **hydrofdar**

Math o ddata GIS: polygon

Craciau mawn wedi'u selio

Selio craciau mewn mawn. Weithiau, defnyddir stanciau plastig neu ddalennau o bren haenog i ddarparu sêl ar draws craciau mawn, gyda darnau o hyd amrywiol wedi'u gosod ar ongl sgwâr i'r nodwedd. Cofnodwch fel nodweddion pwynt yma ar gyfer nodweddion arwahanol. Ar gyfer craciau helaeth, daliwch y rhain fel stanciau plastig neu argaeau pren gyda llenwad / heb eu llenwi.

Cod gweithgaredd: **hydroseal**

Math o ddata GIS: Pwyntiau

Argae llen

Argaeau llen. Stanciau pren neu blastig wedi'u gosod i godi lefelau dŵr mewn lleoliadau heblaw ffosydd arwahanol neu gyliau erydiad. Cofnodwch fel llinellau neu bwyntiau, yn dibynnu ar hyd.

Cod gweithgaredd: **hydrocdam**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)



Gosod argae llen 245 metr o hyd wedi'i wneud o stanciau plastig trwm sy'n cyd-gloi yng Nghors Erddreiniog, Ynys Môn. Roedd angen y dull hwn i wrthweithio ffos yr oedd y tîrffediannwr cyfagos eisiau ei chynnal ar lefelau draenio'r pridd. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Mesurau hydrolegol eraill

Cynyddu arwynebedd y mawndir sydd o dan ddylanwad mesurau eraill. Nodwch y mesurau a fabwysiadwyd yn y golofn 'sylwadau'. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir lle cyflawnwyd dyfrhau a chofnodwch y dull.

Cod gweithgaredd: **hydroarot**

Math o ddata GIS: polygon (gyda phwyntiau dewisol)

Rheolaeth hydrolegol hanesyddol

Ardal gyffredinol sy'n destun adferiad hydrolegol hanesyddol. Mae hwn yn rhoi diffiniad o ardal a reolir yn hanesyddol drwy waith adfer hydrolegol lle na chyfnodwyd mesurau gweithgaredd unigol yn fanwl ar y pryd.

Cod gweithgaredd: **hydroarea**

Math o ddata GIS: Polygon

Adfer hydrolegol – argaeau

Mae blocio ffosydd neu 'flocio gafael' yn golygu gosod argaeau mewn ffosydd llinol. Gellir gosod argaeau gydag ôl-lenwad neu hebdo â deunydd fel malurion grug neu fawn. Defnyddir pibellau weithiau i ganiatáu i ddŵr basio trwy'r argae yn hytrach na throsto, fel arfer i leihau'r risg o fethiant yr argae neu lle mae angen cadw rhywfaint o swyddogaeth ddraenio. Yn hytrach na chreu math o argae ar wahân yma, gofynnwn i'r defnydd o bibellau yn y modd hwn gael ei gynnwys yn y golofn sylwadau wrth fapio'r nodweddion hyn.

Argae mawn heb fewnlenwad

Argaeau wedi'u hadeiladu o fawn at y diben o godi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle nad yw hyd y ffos rhwng argaeau wedi'i fewnlenwi na'i ailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau mawn. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damptni**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)



Gosodwyd argaeau mawn tua 5 metr ar wahân ar hyd ffos coedwigo flaenorol, ger Nant Gwinau ar safle adfer mawndir ar dir fu gynt wedi ei goedwigo yng Ngheredigion, gyda'r bwriad o godi lefelau'r dŵr ar y mawndir amgylchynol.

Argae plastig heb fewnlenwad

Argaeau wedi'u hadeiladu o ddalennau o blastig sy'n cyd-gloi at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle nad yw hyd y ffos rhwng argaeau wedi'i fewnlenwi na'i ailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau o stanciau plastig. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damppni**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)



Stanciau plastig yn codi lefel y dŵr mewn hen doriad mawn. Cors Fochno, Ceredigion. Llun: P.S. Jones.

Argae pren heb fewnlenwad

Argaeau pren mewn ffosydd heb eu mewnlenwi na'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o bren at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle nad yw'r ffos wedi'i mewnlenwi na'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau pren. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damtini**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)



Argae pren a ddefnyddir fel rhwystr ar draws ffos coedwigo blaenorol, ger Nant Gwinau ar safle adfer mawndir ar dir fu gynt wedi ei goedwigo yng Ngheredigion, gyda'r bwriad o godi lefelau'r dŵr ar y mawndir amgylchynol.

Argae grug heb fewnlenwad

Byrnau grug mewn ffosydd heb eu mewnlenwi na'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o fynau grug at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle nad yw'r ffos wedi'i mewnlenwi na'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio byrnau grug. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob bwrn.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damheni**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae tocion heb fewnlenwad

Argaeau tocion mewn ffosydd heb eu mewnlenwi na'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o docion at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle nad yw'r ffos wedi'i

mewnlenwi na'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio byrnau grug. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae tocion.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **dambrni**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae arall heb fewnlenwad

Mathau eraill o argaeau mewn ffosydd heb eu mewnlenwi na'u hailbroffilio. Unrhyw dechneg a ddefnyddir ac eithrio'r rhai a restrir fel AH.2.1 – 2.5 at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle nad yw'r ffos wedi'i mewnlenwi neu ei hailbroffilio. Nodwch y dechneg yn y golofn 'sylwadau'.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damotni**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae mawn gyda mewnlenwad o fawn

Argaeau wedi'u hadeiladu o fawn at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae hyd y ffos rhwng argaeau hefyd wedi'i fewnlenwi â mawn neu wedi'i ailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau mawn a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damppt**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae plastig gyda mewnlenwad o fawn

Argaeau stanciau plastig mewn ffosydd wedi'u llenwi â mawn neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o ddalennau o blastig sy'n cyd-gloi at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â mawn neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau stanciau plastig a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damppt**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)



Argae pren gyda mewnlennwad o fawn

Argaeau pren mewn ffosydd wedi'u llenwi â mawn neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o bren at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â mawn neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau pren a thrwy fewnlenni. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damtdpt**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae grug gyda mewnlennwad o fawn

Byrnau grug mewn ffosydd wedi'u llenwi â mawn neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o fyrrau grug at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r

ffos hefyd wedi'i llenwi â mawn neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi codi gan ddefnyddio argaeau byrnau grug a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damhept**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae tocion gyda mewnlennwad o fawn

Argaeau tocion mewn ffosydd wedi'u llenwi â mawn neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o docion at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â thocion neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau tocion a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **dambbrpt**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae arall gyda mewnlennwad

Mathau eraill o argaeau mewn ffosydd wedi'u llenwi â mawn neu wedi'u hailbroffilio. Unrhyw dechneg a ddefnyddir ac eithrio'r rhai sydd wedi'u rhestru fel AH.3.1 – 3.5 at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â mawn neu wedi'i hailbroffilio. Nodwch y dechneg yn y golofn 'sylwadau'. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damoth**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol) Argae mawn gyda mewnlennwad o docion

Argaeau mawn mewn ffosydd wedi'u llenwi â thocion neu wedi'u hailbroffilio.

Argaeau wedi'u hadeiladu o fawn at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â thocion neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau

gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau mawn a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damptr**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae plastig gyda mewnlwad o docion

Argaeau stanciau plastig mewn ffosydd wedi'u llenwi â thocion neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o ddalennau o blastig sy'n cyd-gloi at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â thocion neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau stanciau plastig a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **dampbr**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae pren gyda mewnlwad o docion

Argaeau pren mewn ffosydd wedi'u llenwi â thocion neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o bren at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â thocion neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau pren a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damtibr**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae grug gyda mewnlwad o docion

Byrnau grug mewn ffosydd wedi'u llenwi â thocion neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o fynau grug at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â thocion neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi codi gan ddefnyddio argaeau byrnau grug a thrwy fewnlenwi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damhebr**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae tocion gyda mewnlennad o docion

Argaeau tocion mewn ffosydd wedi'u llenwi â malurion neu wedi'u hailbroffilio. Argaeau wedi'u hadeiladu o docion at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â thocion neu wedi'i hailbroffilio. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau tocion a thrwy fewnlenni. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **dambrbr**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Argae arall gyda mewnlennad o docion

Mathau eraill o argaeau mewn ffosydd wedi'u llenwi â thocion neu wedi'u hailbroffilio. Unrhyw dechneg a ddefnyddir ac eithrio'r rhai a nodir yn 'Adfer hydrolog – argaeau' at ddiben codi lefelau dŵr o fewn ffosydd a lle mae'r ffos hefyd wedi'i llenwi â malurion neu wedi'i hailbroffilio. Nodwch y dechneg yn y golofn 'sylwadau'. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd lle mae lefelau dŵr wedi'u codi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Nodwch yn y sylwadau a oedd pibellau hefyd wedi'u cynnwys yn yr argae ynghyd â manylion y deunydd a'r uchder y gosodwyd y pibellau.

Cod gweithgaredd: **damotbr**

Math o ddata GIS: aml-linell (a phwyntiau dewisol)

Adfer hydrolegol – llyfnu tir

Ar draws coedwigoedd planhigfeydd yng Nghymru, mae rhwydweithiau draenio helaeth yn aml yn rhedeg ochr yn ochr â rhesi o goed conifferaidd sy'n cael eu tyfu ar y tir uchel sydd wedi'i baratoi rhwng y ffosydd. Yma rydym yn rhestru rhai technegau hysbys a ddefnyddir i adfer hydroleg safleoedd o'r fath. Mae hwn yn faes adfer sy'n datblygu.

Tynnu bonion oddi ar y safle

Tynnu bonion. Llyfnhau arwyneb y ddaear, gan dynnu bonion coed oddi ar y safle. Os cafodd tocion eu tynnu oddi ar y safle hefyd, nodwch hwn hefyd fel 'Tynnu tocion', cod 'smbrrrem'.

Cod gweithgaredd: **smstremoff**

Math o ddata GIS: polygon

Rhencio bonion

Rhencio bonion Llyfnhau arwyneb y ddaear, gan rencio bonion coed a thocion ar y safle. Gwneir hyn pan fo'r proffil mawn yn fwy bas; mae bonion yn cael eu llithro/symud a'u pentyrru'n rhesi sy'n rhedeg i fyny ac i lawr y llethr.

Cod gweithgaredd: **smstremwin**

Math o ddata GIS: Polygon

Gwyrddroi bonion

Gwyrddroi bonion. Llyfnhau arwyneb y ddaear gyda bonion coed wedi'u gwrthdroi a'u gosod mewn rychau i leihau amrywiadau topograffaid cefn a rych yn ogystal â lleihau colled dŵr mewn rychau. Llai o gost ac aflonyddwch safle o gymharu â symud bonion oddi ar y safle. Os yw tocion wedi'u tynnu o'r safle hefyd, a fydddech cystal â nodi hwn hefyd fel polygon ar gyfer 'Tynnu tocion', cod 'smbrrrem'.

Cod gweithgaredd: **smstf**

Math o ddata GIS: Polygon



Malu bonion

Malu bonion. Yn debyg i 'droi bonion' ond mae'r bonion wedi'u malu'n fecanyddol i llyfnhau'r tir ymhellach. Llyfnhau arwyneb y ddaear gyda bonion coed wedi'u gwrthdroi a'u gosod mewn rychau i leihau amrywiadau topograffaid cefn a rych yn ogystal â lleihau colled dŵr mewn rychau. Llai o gost ac aflonyddwch safle o gymharu â symud bonion oddi ar y safle. Os yw tocion wedi'u tynnu o'r safle hefyd, a fyddoch cystal â nodi hwn hefyd fel polygon ar gyfer 'Tynnu tocion', cod 'smbrem'.

Cod gweithgaredd: **smsg**

Math o ddata GIS: polygon

Traws-dracio

Traws-dracio. Llyfnhau arwyneb tir safleoedd gyda hen fonion i gywasgu bonion yn ogystal â gwastatáu amrywiad topograffaid cefn a rych. Mae hyn yn cynnwys tracio yn ôl ac ymlaen dros gefnau a rychau neu nodweddion draenio arwyneb bas eraill i'w cywasgu a chael gwared ar eu heffeithiau draenio. Os yw tocion wedi'u tynnu o'r safle hefyd, cofiwch nodi hwn hefyd fel polygon ar gyfer 'Tynnu tocion', cod 'smbrem'.

Cod gweithgaredd: **smcr**

Math o ddata GIS: polygon



Argae tonnau

Argae tonnau. Argaeau mawn mewn sianeli gyda dyfnder mawn annigonol i gynnwys cloddio dwfn. Defnyddir cloddiwr i lusgo mawn o'r cefnau i'r rhychau yn rheolaidd i rwystro'r draeniad presennol. Os yw tocion wedi'u tynnu o'r safle hefyd, cofiwch nodi hwn hefyd fel polygon ar gyfer 'Tynnu tocion', cod 'smbrrrem'.

Cod gweithgaredd: **smwave**

Math o ddata GIS: polygon



Tynnu tocion

Tynnu tocion. Symud tocion o ardal cyn neu ar y cyd â gweithgareddau llyfnu'r ddaear. Nodwch hefyd y dechneg lyfnu briodol yn ogystal â'r polygon hwn ar gyfer tynnu tocion pan fydd y ddau wedi'u gwneud.

Cod gweithgaredd: **smbrem**

Math o ddata GIS: polygon



Gwrthdroi tyweirch

Gwrthdroi tyweirch. Ardaloedd lle mae tyweirch wedi'u cloddio a'u troi drosodd a'u hailgywasgu er mwyn ailddechrau datblygiad llystyfiant heb newid topograffeg gros a hefyd dileu gwared ar ddeunydd a gloddiwyd.

Cod gweithgaredd: **smtinv**

Math o ddata GIS: polygon

Stripio tyweirch

Mae stripio tyweirch yn golygu cloddio a thynnu tyweirch a mawn arwyneb sydd wedi'i ddifrodi neu wedi'i orfaethu. Gellir stripio tyweirch a mawn fel mesur eithriadol i

gael gwared ar fawn sych sydd wedi'i orfaethu a datgelu mawn oligotroffig gwlyb ar gyfer adfer cynefinoedd, fel arfer lle mae gorfaethu yn broblem sylweddol.

Cod gweithgaredd: **smtstr**

Math o ddata GIS: polygon



Tynnu tyweirch a mawn yng Nghae Gwyn, Cors Erddreiniog, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Rheoli erydiad

Mae nodweddion erydol fel pantiau a gyliau yn amlygu ardaloedd o fawn moel sy'n dueddol o gael eu diraddio ymhellach os cânt eu gadael heb eu rheoli. Mae gyliau hefyd yn gweithredu fel nodweddion draenio hyd yn oed yn absenoldeb erydiad gweithredol. Mae technegau fel ailbroffilio pantiau a rhwystro gyliau yn anelu at amddiffyn y mawn rhag dod i gysylltiad â'r elfennau ac yn lleihau hindreulio gan wynt a dŵr ac weithiau nifer uchel o ymwelwyr, wrth gyfrannu hefyd at adfer lefelau dŵr.

Gwahaniaethir yma rhwng rheoli nodweddion erydol fel pantiau a gyliau ac adfer hydrolegol nodweddion gwaith dyn a grëwyd i ddraenio mawndiroedd. Mae ardaloedd pantiog sy'n amlygu mawn noeth yn cael eu mapio'n well fel polygonau y

gellir eu defnyddio i ddiffinio'r ardaloedd lle mae technegau rheoli erydiad yn cael eu defnyddio, ond mae gyliau wedi'u blocio yn cael eu cynrychioli fel nodweddion llinol.

Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys wrth reoli erydiad:

[Sefydlogi arwynebau](#)

[Ailbroffilio](#)

[Ailgyfeirio llwybrau troed](#)

[Rheolaeth hanesyddol o erydiad](#)

[Rheoli erydiad – blocio gyliau](#)

Sefydlogi arwynebau

Sefydlogi arwynebau gan ddefnyddio matiau, taenu tocion/gwellt ac ati. Sefydlogi arwynebau mawn agored trwy wasgaru tocion (e.e. grug), gwellt (e.e. glaswellt y gweunydd) neu fatiau wedi'u gweithgynhyrchu.

Cod gweithgaredd: **erosstabl**

Math o ddata GIS: polygon





Ailbroffilio

Ailbroffilio pantiau a gylïau. Ailbroffilio ymylon pantiau i greu arwyneb ar lethr sy'n llai tueddol o erydu. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir a reolir gan y dechneg hon. Ychwanegiad dewisol o linellau sy'n cynrychioli hyd wynebau pantiau wedi'u hailbroffilio neu ymylon gylïau.

Cod gweithgaredd: **erosrprof**

Math o ddata GIS: polygon (aml-linellau dewisol)



Ailgyfeirio llwybrau troed

Ailgyfeirio mynediad i gerddwyr. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir a reolir gan y dechneg hon. Ychwanegiad dewisol o linellau yn cynrychioli hyd y llwybr ag arwyneb.

Cod gweithgaredd: **erospath**

Math o ddata GIS: polygon (aml-linellau dewisol)

Rheolaeth hanesyddol o erydiad

Ardal gyffredinol sy'n destun mesurau rheoli erydiad hanesyddol. Mae hwn yn rhoi diffiniad o ardal lle mae mawn wedi erydu wedi'i reoli'n hanesyddol ar gyfer rheoli erydiad trwy fesurau ailgyflwyno llystyfiant a/neu flocio gylïau ond na chofnodwyd mesurau gweithgaredd unigol yn fanwl ar y pryd.

Cod gweithgaredd: **eroarea**

Math o ddata GIS: polygon

Rheoli erydiad – blocio gylïau

Mae gylïau yn nodweddion erydol y gellir eu rhwystro mewn ffordd debyg i ffosydd o waith dyn. Y nodau yw lleihau erydiad gan ddŵr sy'n cael ei sianelu drwy'r gyli, lleihau amlygiad y mawn i elfennau hindreulio, a chynyddu lefelau dŵr ar draws y mawndir i annog planhigion sy'n ffurfio mawn.

Yn aml, mae gylïau yn lletach na ffosydd felly nid yw stanciau plastig yn tueddu i gael eu defnyddio yn yr achosion hyn gan eu bod yn fwy tebygol o fethu. Mae blocio rhannol gan ddefnyddio bafflau weithiau'n cael ei ddefnyddio lle mae methiant argae yn cael ei ystyried yn debygol neu lle mae creu pyllau y tu ôl i argaeau yn annerbyniol, er bod hyn yn llawer llai effeithiol o ran lleihau pŵer erydu dŵr sy'n draenio drwyddynt neu gynyddu lefelau dŵr.

Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gylïau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau mawn. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Gyli wedi'i flocio gan fawn heb fewnlenwad

Blocio gylïau gydag argaeau mawn wedi'u gosod ar draws gylïau i godi lefelau dŵr. Argaeau wedi'u hadeiladu o fawn at ddiben codi lefelau dŵr o fewn gylïau erydiad. Dim mewnlenwi yn yr ardal y tu ôl i'r argae. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gylïau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau mawn. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Cod gweithgaredd: **gullptni**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)



Gyli wedi'i flocio gan bren heb fewnlenwad

Blocio gylïau gydag argaeau pren wedi'u gosod ar draws gylïau i godi lefelau dŵr. Argaeau wedi'u hadeiladu o bren at ddiben codi lefelau dŵr o fewn gylïau erydiad. Dim mewnlenni yn yr ardal y tu ôl i'r argae. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gylïau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Cod gweithgaredd: **gulltini**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)



Gyli wedi'i flocio gan rug heb fewnlenwad

Blocio gyliau gyda byrnau grug wedi'u gosod ar draws gyliau i godi lefelau dŵr. Argaeau wedi'u hadeiladu o fynau grug er mwyn codi lefelau dŵr o fewn gyliau erydiad. Dim mewnlenni yn yr ardal y tu ôl i'r argae. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gyliau lle mae lefelau dŵr wedi codi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Cod gweithgaredd: **gullheni**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)

Gyli wedi'i flocio gan bafflau

Blocio gyliau'n rhannol gyda bafflau wedi'u gosod ar draws rhan o led gyli i leihau cyflymder llif ac annog gwaddodiad. Gall yr ardal y tu ôl i'r argae lenwi'n naturiol ond nid yw'r ardal y tu ôl i'r bafflau wedi'i llenwi â thocion fel arfer. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o ffosydd y mae bafflau yn effeithio arnynt. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi pob lleoliad baffl.

Cod gweithgaredd: **gullbaff**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)

Gyli wedi'i flocio gan fawn gyda mewnlennwad

Blocio gyliau gydag argaeau mawn wedi'u gosod ar draws gyliau i godi lefelau dŵr. Wedi'u mewnlenni. Argaeau wedi'u hadeiladu o fawn at ddiben codi lefelau dŵr o fewn gyliau erydiad. Mewnlenni â thocion, byrnau grug, mawn, ac ati y tu ôl i'r argae.

Nodwch y deunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer mewnlenni yn y golofn sylwadau. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gyliau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi gan ddefnyddio argaeau mawn. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Cod gweithgaredd: **gullptin**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)

Gyli wedi'i flocio gan bren gyda mewnlenni

Blocio gyliau gydag argaeau pren wedi'u gosod ar draws gyliau i godi lefelau dŵr. Wedi'u llenwi â thocion. Argaeau wedi'u hadeiladu o bren at ddiben codi lefelau dŵr o fewn gyliau erydiad. Mewnlenni â thocion y tu ôl i'r argae. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gyliau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Cod gweithgaredd: **gulltiin**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)

Gyli wedi'i flocio gan rug gyda mewnlenni

Blocio gyliau gyda byrnau grug wedi'u gosod ar draws gyliau i godi lefelau dŵr. Wedi'u llenwi â thocion. Argaeau wedi'u hadeiladu o fynau grug er mwyn codi lefelau dŵr o fewn gyliau erydiad. Mewnlenni â thocion y tu ôl i'r argae. Dylai llinellau gynrychioli rhannau o gyliau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi. Gellir ychwanegu pwyntiau i gofnodi lleoliad pob argae.

Cod gweithgaredd: **gullhein**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)

Gyli wedi'i flocio gyda mewnlenni arall

Blocio gyliau gyda deunydd arall i godi lefelau dŵr. Nodwch y math o ddeunydd a ddefnyddiwyd, e.e. gwellt y gweunydd, yng ngholofn sylwadau priodolddau'r map. Dylai polygonau neu linellau gynrychioli rhannau o gyliau lle mae lefelau dŵr wedi'u codi.

Cod gweithgaredd: **gullhein**

Math o ddata GIS: aml-linell (gyda phwyntiau dewisol)

Blocio micro-erydu

Adeiladu nodweddion lluosog wedi'u creu gan ddefnyddio mawn i rwystro micro-erydu mewn gylïau cynnar bach a chorffrydiau. Fe'i cymhwysir yn nodweddiadol i nodweddion erydiad sy'n llai na 0.3 metr yn is na lefel wyneb y gors o amgylch. Mae'n golygu rhwystro'r nodwedd erydiad gan ddefnyddio mawn amgylchynol a gellir ei wneud â llaw neu gyda chloddwyr bach – yn ddefnyddol ar fatiau cors – oherwydd maint nodweddion o'r fath. I'w gofnodi fel polygon.

Cod gweithgaredd: **micerosb**

Math o ddata GIS: polygon



Rheoli coed

Mae'r mwyafrif o dechnegau 'rheoli coed' ar gyfer adfer mawndiroedd a ddisgrifir yma yn ymwneud â phlanhigfeydd conwydd ar fawndir sy'n cael ei ddraenio i'r diben hwn ac adfywio'r rhywogaethau hynny ac ehangu ar dir heb ei blannu, gan gynnwys cynefinoedd mawndir cyfagos. Rydym yn defnyddio 'rheoli prysgwydd' wrth ddisgrifio gweithgareddau i reoli coed a llwyni llydanddail.

Defnyddir technegau rheoli coed yn aml ar y cyd ag adfer hydrolegol a/neu bori ar ôl tynnu coed neu fonion oddi ar y safle. Yn yr achosion hyn, mapiwch bob un o'r gweithgareddau sydd wedi digwydd ar y safle.

Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys mewn rheoli coed:

[Rheoli prysgwydd](#)

[Rheoli coed – planhigfa gonwydd](#)
[Rheoli coed hanesyddol](#)

Rheoli prysgwydd

Rheoli prysgwydd. Mae prysgwydd yn cyfeirio at lwyni llydanddail ar fawndir. Cynhwyswch ddisgrifiad o'r math o brysgwydd sy'n cael ei reoli, p'un a gafodd y prysgwydd ei dynnu oddi ar y safle neu a gafodd ei gadw ar y safle, ac a gafodd pigiad coesyn, triniaeth bonyn, taeniad dail ac ati eu rhoi yn y golofn 'sylwadau'. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir a reolir gan y dechneg hon. Dylid cofnodi unrhyw reolaeth barhaus gan ddefnyddio pori fel gweithgaredd pori ar wahân.

Cod gweithgaredd: **scrubc**

Math o ddata GIS: polygon



Rheoli coed – planhigfa gonwydd

Cynaeafu

Canopi coed wedi'i dynnu (cynaeafu). Cynaeafu planhigfa gonwydd. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir a reolir gan y dechneg hon.

Cod gweithgaredd: **forharv**

Math o ddata GIS: polygon



Teneuo

Teneuo canopi coed. Teneuo planhigfa ar gyfer cynhaeaf cnwd conwydd cynnar neu aflwyddiannus. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir a reolir gan y dechneg hon.

Cod gweithgaredd: **forthin**

Math o ddata GIS: polygon

Gwaredu tyfiant coed newydd

Atal planhigfeydd rhag adfywio a/neu dynnu hadau. Cael gwared ar goedwigaeth planhigfa sydd wedi'i hadfywio / wedi'i hailhadu mewn ardal sydd wedi'i llwyrddorri'n flaenorol neu ardal na phlannwyd erioed o'r blaen. Mae deunydd yn cael ei dynnu oddi ar y safle.

Cod gweithgaredd: **forregen**

Math o ddata GIS: polygon



Dirisglo

Dirisglo. Mae dirisglo yn gwneud toriad crwn i'r rhisgl o amgylch y boncyff i ladd coed conwydd ar fawndiroedd coediog. Nodwch hwn fel yr ardal lle defnyddiwyd cylchrisglo yn y modd hwn.

Cod gweithgaredd: **forringb**

Math o ddata GIS: polygon

Torri a thocio

Torri a thocio. Torri coed a chael gwared ar ganghennau (tocio), gan adael deunydd wedi'i bentyrru ar y safle. Nodwch hwn fel yr ardal lle bu torri a/neu docio.

Cod gweithgaredd: **cutsned**

Math o ddata GIS: polygon



Conwydd wedi'u taenu neu wedi'u naddu

Taenu neu naddu conwydd. Mae hyn yn cyfeirio at daenu planhigfa gonwydd. Nodwch yn y sylwadau ai coed cyfan neu fonion yn unig yw hyn. Ar gyfer taenu grug a/neu wellt y gweunydd,

Cod gweithgaredd: **chipcon**

Math o ddata GIS: polygon



Rheoli coed hanesyddol

Ardal gyffredinol sy'n destun rheolaeth hanesyddol o fawn wedi'i goedwigo, a rheolaeth mawndir sy'n gysylltiedig â choedwigaeth planhigfeydd conwydd. Mae hyn yn diffinio ardal lle mae mawn wedi'i goedwigo wedi'i reoli'n hanesyddol ond ni chafodd mesurau gweithgaredd unigol eu cofnodi'n fanwl ar y pryd.

Cod gweithgaredd: **forarea**

Math o ddata GIS: polygon

Rheoli llystyfiant

Diben rheoli llystyfiant wrth adfer mawndiroedd fel arfer yw rheoli goruchafiaeth niferoedd bach o rywogaethau toreithiog (e.e. gwellt y gweunydd, grug) i sicrhau adferiad a dyfalbarhad llystyfiant cors sy'n nodweddiadol o'r cyd-destun. Fe'i defnyddir yn aml fel atodiad neu ragarweiniad i bori a gellir ei ddefnyddio hefyd i helpu i liniaru effeithiau gorfaethu. Mae llawer o dechnegau hefyd yn cynnwys ailgyflwyno llystyfiant mewn mawndiroedd. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu dileu cyn belled ag y bo modd oherwydd nad ydynt yn rhan o gymunedau mawndir naturiol a'u bod yn cael effeithiau andwyol ar ecosystemau brodorol.

Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys wrth reoli llystyfiant:

[Rheoli llystyfiant – torri gwair](#)

[Rheoli llystyfiant – taenu a naddu](#)

[Rheoli llystyfiant – rhywogaethau estron goresgynnol](#)

[Rheoli llystyfiant – ailgyflwyno llystyfiant](#)

[Rheoli llystyfiant – llosgi](#)

[Ardal rheoli llystyfiant hanesyddol](#)

Rheoli llystyfiant – torri gwair

Mae torri gwair yn cyfeirio at amrywiaeth o weithgareddau a ddefnyddir i waredu neu reoli tyfiant llystyfiant trwchus fel arfer i adfer llystyfiant agored sy'n addas ar gyfer ystod eang o rywogaethau cors nodweddiadol ac yn aml yn brin. Fe'i defnyddir yn aml fel rhagarweiniad i bori a gellir ei ddefnyddio hefyd at ddibenion penodol megis creu brêc rhag tân.

Torri heb gasglu

Topio / torri gwair mecanyddol heb gasglu'r deunydd wedi'i dorri. Torri cynefin gan ddefnyddio tractor neu dorrwr gwlyptir arbenigol heb unrhyw gasgliad o ddeunydd wedi'i dorri.

Cod gweithgaredd: **mownc**

Math o ddata GIS: polygon

Torri gyda chasglu

Topio mecanyddol, casglu deunydd wedi'i dorri. Torri cynefin gan ddefnyddio tractor neu dorrwr gwlyptir arbenigol gyda deunydd wedi'i dorri wedi'i gasglu a'i dynnu oddi ar yr ardal sydd wedi'i thorri.

Cod gweithgaredd: **mowcol**

Math o ddata GIS: polygon



Torri llystyfiant cors galchog gyfoethog, gan gasglu'r deunydd wedi'i dorri ar yr un pryd gan ddefnyddio cynaeafwr gwlyptir Pistenbully arbenigol. Bryn Mwcog (Cors Erddreiniog), Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Torri â llaw heb gasglu

Torri â llaw heb gasglu'r deunydd wedi'i dorri. Torri cynefin gan ddefnyddio offer llaw (gan gynnwys strimwyr / torwyr llwyni wedi'u pweru) heb unrhyw gasgliad o ddeunydd wedi'i dorri. Ar gyfer torri glaswellt y gweunydd, cofnodwch hwn fel 'Torri glaswellt y gweunydd', cod gweithgaredd 'molcut'.

Cod gweithgaredd: **mowhandnc**

Math o ddata GIS: polygon

Torri â llaw gyda chasglu

Torri â llaw gyda chasglu a thynnu deunydd. Torri'r cynefin gan ddefnyddio offer llaw (gan gynnwys strimwyr / torwyr llwyni wedi'u pweru) gyda deunydd wedi'i dorri'n cael ei dynnu trwy gribinio. Ar gyfer torri gwellt y gweunydd, cofnodwch hwn fel 'Torri glaswellt y gweunydd', cod gweithgaredd 'mowhandc'.

Cod gweithgaredd: **mowhandc**

Math o ddata GIS: polygon



Torri llystyfiant twmpathog sensitif â llaw mewn cors galchog gyfoethog gyda strimiwr (cefndir) a chribinio â llaw (blaendir) i'w roi mewn bagiau (ni ddangosir). Cors Nant Isaf, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Torri brecioau rhag tân

Torri brecioau rhag tân. Torri gwair i greu brecioau rhag tân i gyfyngu ar faint tebygol ardaloedd a losgir gan achosion o losgi a reolir neu danau gwyllt. Digideiddiwch amlinelliadau brecioau rhag tân.

Cod gweithgaredd: **burnmow**

Math o ddata GIS: polygon



Rheoli llystyfiant – taenu a naddu

Mae hyn yn cyfeirio at ddefnyddio coed neu lwyni brodorol wedi'u naddu neu eu taenu fel gweithgaredd rheoli llystyfiant. Defnyddir tocion wedi'u taenu neu 'sglodion' mwy o bren i ddiogelu'r ddaear a hefyd i gael gwared ar ddeunydd wedi'i dorri ar y safle mewn cyd-destunau lle nad yw'n bosibl ei symud.

Yn y dosbarthiad hwn o weithgareddau adfer, ymdrinnir â thaenu coed planhigfeydd conwydd dan 'Rheoli coed' ar gyfer coedwigoedd planhigfeydd ar fawn (gweler 'Conwydd wedi'u taenu neu eu naddu', cod gweithgaredd: chipcon).

Grug wedi'i daenu neu ei naddu

Taenu neu naddu grug. Mae hyn yn cyfeirio at ddefnyddio grug fel tomwellt.

Cod gweithgaredd: **chiphe**

Math o ddata GIS: Polygon



Taenu neu naddu pethau eraill

Mathau eraill o daenu neu naddu. Mae hyn yn cyfeirio at daenu pethau nad ydynt yn rug nac yn goed/bonion planhigfeydd conwydd. Nodwch yn y golofn sylwadau beth gafodd ei daenu, e.e. gwellt y gweunydd. Ar gyfer coed, nodwch yn y sylwadau a yw hyn yn goed cyfan neu fonion yn unig.

Cod gweithgaredd: **chipot**

Math o ddata GIS: polygon



Rheoli llystyfiant – rhywogaethau estron goresgynnol

Yn ôl eu diffiniad, mae rhywogaethau estron goresgynnol yn tueddu i ddominyddu ar draul cymunedau planhigion mawndir brodorol ac amrywiol. Mae'r rhain yn cael eu dileu cyn belled ag y bo modd oherwydd nad ydynt yn rhan o gymunedau mawndir naturiol a'u bod yn cael effeithiau andwyol ar ecosystemau brodorol. Mae enghreifftiau o rywogaethau estron goresgynnol yn cynnwys *Rhododendron ponticum*, clymog Japan (*Reynoutria japonica*) a jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*). Mae tynnu mecanyddol ac â llaw, chwistrellu coesyn a thorri ymhlith y dulliau a ddefnyddir i reoli'r rhywogaethau hyn. Mae'r planhigion hyn yn hynod heriol i'w rheoli ac mae dulliau newydd o gael gwared arnynt yn parhau i ddod i'r amlwg er mwyn mynd i'r afael â'u hehangiad yn y DU.

Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol

Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol trwy dynnu, torri, chwistrellu coesyn neu dulliau eraill. Nodwch y math o reolaeth a rhywogaeth estron oresgynnol yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **veginns**

Math o ddata GIS: polygon



Rheoli llystyfiant – trin gwellt y gweunydd

Mae gwellt y gweunydd, *Molinia caerulea*, yn gydran naturiol o gymunedau mawndir ond yn dueddol o dra-arglwyddiaethu a threchgu rhywogaethau eraill ar fawndiroedd diraddiedig, afiach. Mae technegau rheoli gwellt y gweunydd yn cynnwys crafu a thorri yn ogystal â threialu triniaethau newydd.

Crafu gwellt y gweunydd

Crafu gwellt y gweunydd. Crafu gwellt y gweunydd gan ddefnyddio dulliau mecanyddol er mwyn tynnu twmpathau a/neu lyfnhau arwyneb y mawn ar ôl torri gwellt y gweunydd.

Cod gweithgaredd: **molscr**

Math o ddata GIS: polygon



Torri gwellt y gweunydd a'i gasglu

Torri gwellt y gweunydd, gan gasglu a thynnu'r deunydd. Disgrifiwch y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer torri yn y golofn 'sylwadau'. Ar gyfer torri mathau eraill o llystyfiant, defnyddiwch godau ar gyfer torri â llaw ('mowhandc' neu 'mowhandnc').

Cod gweithgaredd: **molcutc**

Math o ddata GIS: polygon

Torri gwellt y gweunydd heb ei gasglu

Torri gwellt y gweunydd heb gasglu/symud y deunydd o gwbl. Disgrifiwch y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer torri yn y golofn 'sylwadau'. Ar gyfer torri mathau eraill o llystyfiant, defnyddiwch godau ar gyfer torri â llaw ('mowhandc' neu 'mowhandnc').

Cod gweithgaredd: **molcutnc**

Math o ddata GIS: polygon

Gwellt y gweunydd (arall)

Technegau rheoli gwellt y gweunydd eraill. Nodwch y math o driniaeth a ddefnyddiwyd yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **moloth**

Math o ddata GIS: polygon

Rheoli llystyfiant – ailgyflwyno llystyfiant

Mae ailgyflwyno rhywogaethau dymunol o llystyfiant yn weithredol mewn mawndiroedd yn cynnwys gwasgaru gwair gwyrdd, hadu, a chyflwyno plygiau o ddeunydd wedi'i luosogi neu gynaeafu. Mae ailgyflwyno llystyfiant yn oddefol trwy gytfrefu naturiol hefyd yn cael ei fabwysiadu pan fydd digon o rywogaethau mawndir ar gael i adfywio.

Gwair gwyrdd

Gwasgaru gwair gwyrdd. Cyflwyno/ailgyflwyno rhywogaethau targed trwy wasgaru gwair gwyrdd, gan ei wasgaru'n nodweddiadol ar fawn agored wedi'i adfer neu i llystyfiant presennol sy'n cael ei drin gan amrywiaeth o dechnegau rheoli posibl.

Cod gweithgaredd: **revgghay**

Math o ddata GIS: polygon



Llion Jones ac Emyr Humphreys o CNC yn taenu gwair gwyrdd ar y mawn gwlyb a'r wyneb marl a dynnwyd yn artiffisial yng Nghae Gwyn, Cors Erddreiniog, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Ailhadu

Ailhadu arwynebau mawndir gyda rhywogaethau mawndir. Cyflwyno/ailgyflwyno rhywogaethau targed trwy ailhadu a'u rhoi fel arfer ar fawn agored wedi'i adfer.

Cod gweithgaredd: **revgseed**

Math o ddata GIS: polygon

Plygiau

Plannu plygiau ac ati. Cyflwyno/ailgyflwyno rhywogaethau targed trwy blannu plygiau o ddeunydd wedi'i luosogi neu gynaeafu.

Cod gweithgaredd: **revgplug**

Math o ddata GIS: polygon

Adferiad goddefol

Adferiad goddefol o fanc hadau ac ati, dim ymyrraeth. Caniatáu i lystyfiant ddatblygu trwy gytrefu naturiol.

Cod gweithgaredd: **revgpass**

Math o ddata GIS: polygon

Rheoli llystyfiant – llosgi

Mae llosgi ardaloedd o fawndir yn cael ei ddefnyddio weithiau fel arf adfer neu reoli llystyfiant wedi'i gynllunio a'i weithredu'n ofalus i atal rhywogaethau trech rhag ymledu ac annog adfywiad rhywogaethau dymunol sy'n ffurfio mawn a chymunedau planhigion mwy amrywiol sy'n nodweddiadol o fawndiroedd iach. Dim ond fel gweithgaredd eithriadol y dylid ystyried llosgi a rhaid iddo ddilyn gofynion y [Cod Llosgi Grug a Glaswellt](#).

Llain wedi'i llosgi

Llosgi lleiniau bach. Rheoli gan dân wedi'i gyfyngu i leiniau bach. Digideiddiwch ffiniau lleiniau llosg.

Cod gweithgaredd: **burnpatch**

Math o ddata GIS: polygon

Rheoli llosgi

Ar y cyfan, rheolir yr ardal gan losgi. Mae'n darparu opsiwn i ddigideiddio'r ardal gyfan a reolir gan losgi a dylid ei ddefnyddio yn ogystal â mapio llosgi lleiniau bach a brecio rhag tân.

Cod gweithgaredd: **burnmgmt**

Math o ddata GIS: polygon



Llosgi cadwraethol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio yn cael ei ddefnyddio i reoli hesg trwchus a gorchudd gwellt. Llun: Justin Hanson / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn

Ardal rheoli llystyfiant hanesyddol

Ardal gyffredinol sy'n destun mesurau rheoli llystyfiant hanesyddol. Mae hwn yn rhoi diffiniad o ardal lle mae llystyfiant wedi'i reoli'n hanesyddol ond na chafodd mesurau gweithgaredd unigol eu cofnodi'n fanwl ar y pryd.

Cod gweithgaredd: **vegarea**

Math o ddata GIS: polygon

Pori

Fel gweithgaredd adfer a rheoli, defnyddir pori yn eang i adfer a rheoli cynefinoedd mawndir. Gan ddibynnu ar gyfansoddiad a strwythur presennol a dymunol y cymunedau planhigion, efallai y bydd angen cynyddu'r drefn bori, ei lleihau, neu ei newid, neu efallai y bydd angen cyflwyno pori neu, mewn rhai amgylchiadau, ei ddileu. Ar gyfer olrhain gweithgareddau, mae'r ardal o fawndir a reolir gan y drefn bori yn cael ei mapio fel polygon (ardal) a chaiff unrhyw seilwaith a osodir i hwyluso

gweithgareddau pori ei gofnodi fel pwyntiau neu linellau yn ôl y mathau o seilwaith a nodir yma.

Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys mewn pori:

[Rheoli pori](#)

[Lleihau da byw](#)

[Gwahardd da byw](#)

[Da byw yn cynyddu](#)

[Cyflwyno da byw](#)

[Bugeilio](#)

[Ffens ffisegol](#)

[Ffens rithwir](#)

[Giât](#)

[Pont](#)

[Corlan](#)

[Seilwaith pori arall](#)

[Ardal rheoli pori hanesyddol](#)

Rheoli pori

Rheoli pori i gyflawni amcan adfer/cadwraeth. Cofnodwch ardaloedd o fawndir fel polygonau lle mae rhyw fath o drefn bori gytunedig ar waith i gyflawni amcanion adfer neu gadwraeth. Mae'r gweithgaredd hwn yn adlewyrchu pori sy'n cael ei reoli ond heb ei newid. Nodwch newidiadau yn y drefn bori gan ddefnyddio dosbarthiadau ar gyfer 'lleihau, gwahardd, cynyddu neu gyflwyno da byw' (gweler rhagor o fanylion isod). Cofnodwch y math o bori a da byw yn y golofn 'sylwadau'. Os yw'n hysbys, disgrifiwch hefyd y drefn bori, niferoedd a mathau o anifeiliaid, y cyfnod pori ac ati yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **grazcont**

Math o ddata GIS: polygon



Pori gyda gwartheg duon Cymreig yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Lleihau da byw

Lleihau da byw. Cofnodwch ardaloedd o fawndir fel polygonau lle llwyddwyd i leihau nifer y stoc i gefnogi amcanion adfer neu gadwraeth. Nodwch y math o bori a da byw yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **grazredn**

Math o ddata GIS: polygon

Gwahardd da byw

Gwahardd da byw. Cofnodwch ardaloedd o fawndir fel polygonau lle mae da byw wedi'i hepgor i gefnogi amcanion adfer neu gadwraeth. Nodwch y math o bori a da byw yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **grazexcl**

Math o ddata GIS: polygon

Da byw yn cynyddu

Da byw yn cynyddu. Cofnodwch ardaloedd o fawndir fel polygonau lle mae cynnydd yn nifer y da byw wedi'i gyflawni i gefnogi amcanion adfer neu gadwraeth.

Cod gweithgaredd: **grazincr**

Math o ddata GIS: polygon

Cyflwyno da byw

Cyflwyno da byw. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir lle mae da byw wedi'u cyflwyno i ardal sydd heb ei phori o'r blaen neu lle maent wedi'u hailgyflwyno ar ôl cyfnod o absenoldeb. Nodwch y math o bori a da byw yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **grazintr**

Math o ddata GIS: polygon

Bugeilio

Bugeilio ar waith. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir lle mae bugeilio ar waith i gefnogi amcanion adfer neu gadwraeth.

Cod gweithgaredd: **grazshep**

Math o ddata GIS: polygon

Ffens ffisegol

Ffensys ffisegol. Gosod neu gynnal a chadw ffensys ffisegol i alluogi pori. Cofnodwch fel polygonau ar gyfer ardaloedd sydd wedi'u hamgáu/gwahardd neu linellau'r ffens.

Cod gweithgaredd: **grazfenc**

Math o ddata GIS: polygon / aml-linell



Ffensys trydan solar yn cael eu defnyddio i sicrhau ffocws pori dros dro mewn cors galchog gyfoethog (ochr dde'r ddelwedd) yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Ffensys rithwir

Ffensys rithwir. Gosod neu gynnal a chadw ffensys rithwir (e.e. defnyddio coleri gwartheg) i alluogi pori. Cofnodwch fel polygonau yr ardalodd yr effeithiwyd arnynt neu'r llinellau.

Cod gweithgaredd: **grazcoll**

Math o ddata GIS: polygon / aml-linell



Giât

Mynediad i dda byw – gatieau. Gosod neu gynnal a chadw gatieau. Cofnodwch fel pwyntiau.

Cod gweithgaredd: **grazgate**

Math o ddata GIS: pwyntiau



Gât gyda bwrdd dehongli, mynedfa ochr a llawr caled o raean i alluogi mynediad i bori yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio, Ynys Môn. Ymgorfforwyd postyn giât calchfaen sy'n draddodiadol i Ynys Môn yn y dyluniad hwn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Pont

Mynediad i dda byw – pontydd. Gosod neu gynnal a chadw pontydd. Cofnodwch fel pwyntiau.

Cod gweithgaredd: **grazbrid**

Math o ddata GIS: pwyntiau



Pont garreg a llenwi gyda chwlfert dros ddraen terfyn dwfn ym Matharn Uchaf, Penllyn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.



Pont bren a ddefnyddir i alluogi mynediad gan dda byw a cherddwyr, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones

Corlan

Corlannau trin da byw. Gosod neu gynnal a chadw corlannau. Cofnodwch fel pwyntiau.

Cod gweithgaredd: **grazpen**

Math o ddata GIS: pwyntiau

Seilwaith pori arall

Seilwaith arall i alluogi pori. Cofnodion dewisol o unrhyw nodweddion a ddefnyddir i gynnal da byw. Nodwch gafnau, pwyntiau mynediad at ddŵr yfed (dyfrffordd) / bwyd ac ati yn y golofn 'sylwadau'.

Cod gweithgaredd: **grazoth**

Math o ddata GIS: pwyntiau / aml-linell / polygon

Ardal rheoli pori hanesyddol

Ardal gyffredinol sy'n destun triniaethau pori hanesyddol. Mae hwn yn rhoi diffiniad o ardal lle mabwysiadwyd mesurau pori yn hanesyddol ond lle na chofnodwyd mesurau gweithgaredd unigol yn fanwl ar y pryd.

Cod gweithgaredd: **grazarea**

Math o ddata GIS: polygon

Rheoli maethynnau

Mae'r rhan fwyaf o amgylcheddau mawndiroedd yn systemau â statws maethol isel ac maent yn sensitif i hyd yn oed lwythiadau cymedrol o'r prif facrofaethynnau, yn benodol N a P. Felly, mae mesurau a gymerir i reoli'r maethynnau sydd ar gael i blanhigion sy'n tyfu ar fawndiroedd yn aml yn cynnwys cyfyngu ar faethynnau nitrogen a ffosfforws, sy'n tueddu i ffafrio rhywogaethau a chymunedau o blanhigion annymunol ar sawl math o fawndir. O dan rai amgylchiadau – er enghraifft, lle mae mawn noeth wedi'i ddatguddio, gan gynnig adnoddau cyfyngedig ar gyfer planhigion sydd newydd ymsefydlu – mae gwrrtaith neu galch yn cael ei wasgaru i wneud amodau'n fwy ffafriol ar gyfer tyfiant llystyfiant.

Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys mewn rheoli maethynnau:

[Gwlyptir a adeiladwyd](#)
[Ardal darged gwlyptir a adeiladwyd](#)

[Cytundeb ar gyfer maethynnau](#)

[Gwrych](#)

[Cloddiau pridd](#)

[Ffos ryng-gipio](#)

[Traethbantau](#)

[Gwahanu dŵr ffo buarth](#)

[Draenio buarthau](#)

[Cyfleuster parod](#)

[Dulliau eraill o reoli maethynnau](#)

[Rheoli maethynnau hanesyddol](#)

Gwlyptir a adeiladwyd

Gwlyptiroedd trin dŵr adeiledig a ddefnyddir i leihau mewnbynnau maethynnau o darddleoedd penodol. Cofnodwch yr amlinelliad o wlyptiroedd trin dŵr adeiledig fel polygonau.

Cod gweithgaredd: **nutcwt**

Math o ddata GIS: polygon



Gwlyptir bach, adeiledig a ddefnyddir i drin dŵr o fewnbwn ymylol tarddle penodol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio, Ynys Môn. Llun: P.S. Jones / Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn.

Ardal darged gwlyptir a adeiladwyd

Ardaloedd mawndir wedi'u targedu i elwa o wlyptiroedd trin dŵr adeiledig. Cofnodwch fel polygonau ardaloedd o fawndir sydd i lawr y llethr o wlyptiroedd trin dŵr adeiledig sydd wedi'u gosod ac y tybir eu bod yn elwa ohonynt. Nodwch yr ardal berthnasol mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nccwtarea**

Math o ddata GIS: polygon

Cytundeb ar gyfer maethynnau

Cytundebau i leihau/dileu'r defnydd o faethynnau / newid arferion. Ar gyfer tir o dan gytundebau rheoli i leihau faint o faethynnau sy'n cael eu defnyddio, cofnodwch yr ardal o fawndir sy'n destun llai o faethynnau fel polygonau. Nodwch yr ardal berthnasol mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutagr**

Math o ddata GIS: polygon

Gwrych

Plannu gwrychoedd. Cofnodwch fel llinellau hyd y gwrychoedd a blannwyd i helpu i leihau mewnbwn maethynnau. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nuthedg**

Math o ddata GIS: aml-linell a pholygon

Cloddiau pridd

Cloddiau pridd. Gellir defnyddio cloddiau yn gyfochrog â ffiniau gwlyptir a'u defnyddio i helpu i atal dŵr ffo i lawr y llethr fel techneg lleihau maethynnau. Cofnodwch gloddiau fel llinellau. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutbank**

Math o ddata GIS: aml-linell a pholygon

Ffos rhyng-gipio

Ffesydd rhyng-gipio. Cofnodwch hyd y ffesydd rhyng-gipio sydd wedi'u gosod fel llinellau i helpu i leihau mewnbwn maethynnau. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nuttrch**

Math o ddata GIS: aml-linell a pholygon

Traethbantau

Traethbantau. Pantiau llinol yw traethbantau a osodwyd i helpu i leihau mewnbwn maethynnau. Cofnodwch y rhain fel nodweddion llinell. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutswal**

Math o ddata GIS: aml-linell a pholygon

Gwahanu dŵr ffo buarth

Mesurau gwahanu dŵr ffo buarth. Cofnodwch leoliadau lle defnyddiwyd mesurau gwahanu dŵr ffo buarth fel pwyntiau. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutroff**

Math o ddata GIS: pwynt a pholygon

Draenio buarthau

Mesurau draenio buarthau. Cofnodwch leoliadau lle defnyddiwyd mesurau i ddargyfeirio draeniau buarthau sy'n cynnwys gormod o faethynnau oddi wrth fawndiroedd fel pwyntiau. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutfydr**

Math o ddata GIS: pwynt a pholygon

Cyfleuster parod

Gosod cyfleuster parod. Cofnodwch leoliadau gosodiadau cyfleuster parod fel pwyntiau. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutpplt**

Math o ddata GIS: pwynt a pholygon

Dulliau eraill o reoli maethynnau

Cyflwynwyd mesurau rheoli maethynnau eraill. Nodwch y math o reolaeth a weithredwyd yn y golofn 'sylwadau', e.e. tynnu/atgyweirio tanc septig. Bydd yr ardal o fawndir yr effeithir arni gan y dull hwn hefyd yn cael ei diffinio fesul achos mewn ymgynghoriad â'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

Cod gweithgaredd: **nutoth**

Math o ddata GIS: pwynt / aml-linell a pholygon

<llun(iau) gyda theitl>

Rheoli maethynnau hanesyddol

Ardal gyffredinol sy'n destun mesurau rheoli maethynnau hanesyddol. Mae hwn yn rhoi diffiniad o ardal lle mae mawndir wedi'i reoli'n hanesyddol ar gyfer rheoli maethynnau, ond ni chofnodwyd mesurau gweithgaredd unigol yn fanwl ar y pryd.

Cod gweithgaredd: **nutarea**

Math o ddata GIS: polygon

Cyfeiriadau

Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, 2020-2025. Cyfoeth Naturiol Cymru, 27 Tachwedd 2020

Dulliau Safonol ar gyfer Tracio Gweithgareddau Adfer Mawndiroedd, 2023. Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, CNC.

Mapiau Gweithgareddau Adfer Mawndiroedd. Adroddiadau safonol yn ôl hectarau o fawndir wedi'u targedu gan waith adfer. 2023. Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, CNC.

Cod Mawndir, fersiwn 1.2. Ebrill 2022. Pwyllgor Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Rhaglen Mawndir. <https://www.iucn-uk-peatlandprogramme.org/sites/default/files/header-images/Peatland%20Code/Peatland%20Code%20v1.2.%202022.pdf>